**Gwreiddio micro-gymwysterau o fewn strategaeth sgiliau**

Emma Hurst, Deon Mynediad ac AU, Coleg Cambria

Yng Ngholeg Cambria, rydym yn falch iawn o gyflwyno Strategaeth Addysg Uwch (AU) a Sgiliau Technegol Uwch (STU) newydd 2025 – 2027, a fydd yn cael ei datblygu dros y tair blynedd academaidd nesaf.

Mae'r Strategaeth yn cyd-fynd â nodau strategol y Coleg ar gyfer ein cwricwlwm, ymgysylltiad â chyflogwyr ac ansawdd i wneud y canlynol:

- Bodloni blaenoriaethau sgiliau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol trwy gynnig cwricwlwm arloesol ac ymatebol dan arweiniad y diwydiant, gan ddiwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a phartneriaid. Codi dyheadau pawb gan sicrhau lefelau uchel o gyrhaeddiad sy'n galluogi pawb i gyflawni eu potensial.
- Darparu gwasanaeth cynhwysfawr i gyflogwyr yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol sy'n rhagori ar eu hanghenion nhw ac anghenion eu gweithlu. Ehangu'r hyn rydym yn ei gynnig i gael effaith gadarnhaol ar economïau'r dyfodol wrth wreiddio profiad gwaith ystyrlon yn ein cynnig cwricwlwm.
- Profiad personol rhagorol i fyfyrwyr sy'n arwain at lefelau uchel cyson o lwyddiant myfyrwyr ac yn cynorthwyo â dilyniant a dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Yn ganolog i'n Strategaeth AU a STU mae cyflwyno dysgu modiwlaidd, a gynigir i ddechrau trwy'r llwybr *HN Flex*. Mae *HN Flex* yn fenter gan Pearson sy'n caniatáu i ddarparwyr cymeradwy gyflwyno unedau unigol o Dystysgrifau a Diplomâu Cenedlaethol Uwch (HN) i 'gyflwyno gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad fesul darnau bach'. Fel arfer, mae unedau HN yn 15 neu 20 credyd. Fel yn achos pob micro-gymhwyster, mae'r cyfle i astudio a chyflawni unedau HN unigol yn fuddiol i unigolion sy'n gweithio ac yn ceisio datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn ogystal ag i'r rhai sy'n dymuno uwchsgilio ar gyfer symud ymlaen yn eu swyddi neu uwchsgilio a/neu ailsgilio ar gyfer cyflogaeth mewn sector newydd/amgen. Bydd ein rhaglenni *HN Flex* a micro-gymwysterau'n cael eu llunio a'u harwain mewn partneriaeth agos â chyflogwyr allweddol sy'n gysylltiedig â'r Coleg. Mae'r trefniant cydweithredol hwn yn sicrhau bod ein cynnig micro-gymwysterau'n cyd-fynd ag anghenion y gweithlu lleol, gan ddarparu cyfleoedd i uwchsgilio ac ailsgilio mewn ffordd sy'n berthnasol ac yn ymarferol. Bydd ein datblygiadau cychwynnol yn y meysydd pwnc canlynol:

- Gofal iechyd
- Peirianneg
- Adeiladu
- Technolegau Digidol
- Busnes

Un o brif amcanion ein Strategaeth AU a STU yw ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion. Mae llwybrau *HN Flex* a micro-gymwysterau'n cynnig pwynt mynediad delfrydol i ddysgwyr sy'n oedolion ar Lefel 4. Trwy gyflwyno modiwlaidd, gall dysgwyr feithrin hyder a sgiliau academaidd yn raddol heb ymrwymo i

gymhwyster llawn. Mae'r dull hyblyg hwn yn lleddfu'r pwysau amser ac ariannol sydd fel arfer yn gysylltiedig â chymwysterau traddodiadol, gan rymuso dysgwyr i ymgysylltu â'u haddysg ar eu cyflymder eu hunain.

Ein nod yw i ddysgwyr sy'n oedolion ddefnyddio'r cyfle hwn fel carreg gamu, gan o bosibl drosi eu credydau cronedig yn gymhwyster Lefel 4 neu Lefel 5 llawn yn y dyfodol. Trwy gynnig y llwybrau hyn, rydym yn gobeithio cefnogi ystod amrywiol o ddysgwyr i ddatblygu eu haddysg a gwella eu rhagolygon gyrfa.

Mae'r strategaeth hon yn gam sylweddol ymlaen o ran gwneud addysg uwch yn fwy hygyrch a pherthnasol i anghenion dysgwyr a chyflogwyr yn ein rhanbarth.